

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 13eg 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (cadeirydd), Geraint Jones, Gwilym Davies, Arwel Davies, Jean Roberts, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards a Gwynedd Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Biniau Halen.

Roedd y Deilydd Portffolio John Wyn Jones wedi gyrru'n ôl at y Bartneriaeth yn egluro na fyddai yn ymweld â'r ardal i drafod eu bwriad i godi tal ar y Cynghorau Cymuned i ail lenwi'r biniau halen ac ni fyddai cyfaddawd ar y mater. Cytunwyd yn unfrydol i gydweithio a Chyngor Cymuned Llandderfel i ddod a'r mater yma i sylw'r trigolion drwy'r wasg leol.

b) Cafwyd yr ymatebion isod gan Gyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf:-

i) Cafwyd cadarnhad bod y car a oedd wedi cael ei adael yn y gilfan ger Cae'r Garnedd yn gyfreithiol i fod ar y ffordd felly nid oedden mewn sefyllfa i orfodi'r perchennog i'w symud.

ii) Roedd y teiars lori wedi cael eu clirio o'r gilfan rhwng Pant Llwyni a Rhydyfen, Arenig.

iii) Roedd yr Arolygwr wedi asesu'r canghennau a oedd yn dod drosodd i'r ffordd ger y Fedw a Cynythog, Parc ac am drefnu iddynt gael eu torri.

iv) Roedd y gweithlu am agor y ffosydd a thorri'r gordyfiant rhwng Ffridd Isa a Groeslon, Maesywaen ac ar y ffordd lawr i gyfeiriad pont Pensarn.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Eluned Morgan, AC - Arolwg datblygu cymunedol ac economaidd y canolbarth a'r gorllewin. Cytunwyd i gwblhau'r holiadur.

ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - Arolwg 2018 o etholiadau seneddol yng Nghymru. Cytunwyd i ymateb yn nol yn gwrthwynebu'r bwriad i uno wardiau Llanuwchllyn, Llandderfel a'r Bala gyda rhai o wardiau De Clwyd a Sir Faldwyn i greu etholaeth o dan yr enw De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn.

iii) Un Llais Cymru – Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 21/9/16.

iv) Bwrdd Rhaglen Carchar Gogledd Cymru - Gwahoddiad i gyfarfod cymunedol ym Mangor, 20/10/16, i drafod y carchar newydd HMP Berwyn, Wrecsam

v) Gweinyddiaeth Cyfiawnder – Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru.

vi) Heddlu Gogledd Cymru – Copi o'r 'Cylchlythyr Gwyllo Cyflymder' diweddaraf.

vii) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – gwahoddiad i'w cynhadledd yn Llanellwyr, 1/11/16.

iii) Ceisiadau Cynllunio.

Cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ffon symudol ym Mhenbryn Mawr, Bala.

Derbyniwyd cais am farn y cyngor i'r bwriad o adeiladu gorsaf ffon symudol ym Mhenbryn Mawr. Nid oedd gwrthwynebiad gan y cynghorwyr gan eu bod yn ymwybodol bod y gwasanaeth ffon symudol yn sâl iawn yn yr ardal.

iv) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Adroddiad Blynnyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Cytunwyd i'w gymeradwyo ac arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ar y wefan.

c) Cytunwyd i dalu cyflog a chostau'r clerc (Gorff – Medi)

v) Materion lleol.

Goryrru drwy Ryduchaf.

Derbyniwyd cwynion bod nifer o gerbydau yn anwybyddu'r cyfyngiad cyflymder ac yn gyrru trwy'r pentref ac roedd pryder am ddiogelwch y plant lleol. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld os oedd posib ail asesu cyflymder y cerbydau a gosod cyfyngiadau pellach os oedd posib.